# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 3 Tachwedd 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6616

## 299(v5)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf rhithwir, gyda Aelodau yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Ni ofynnwyd y cwestiwn cyntaf. Gofynnwyd cwestiynau 2 - 8. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.29

### 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Mesurau Diogelu Iechyd ar ôl y Cyfnod Atal Byr

Dechreuodd yr eitem am 14.52

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cymorth Strategol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dechreuodd yr eitem am 16.07

## 5 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Dyfodol Gwasanaethau Rheilffyrdd - Manylion y trefniadau newydd

Dechreuodd yr eitem am 16.33

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Blwyddyn 4 y Rhaglen Tai Arloesol - Thema Dulliau Adeiladu Modern/Modiwlar

Dechreuodd yr eitem am 17.26

## 7 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Y Cynllun Adfer Economaidd - Gohiriwyd tan 17 Tachwedd 2020

Gohiriwyd yr eitem tan 17 Tachwedd 2020.

## 8 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Diweddariad ar Ddigartrefedd - Tynnwyd yn ôl

Tynnwyd yr eitem yn ôl.

## 9 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd: Diweddariad ar Ddatblygiadau ym Mholisi Masnach y DU - I'w gyhoeddi fel Datganiad Ysgrifenedig

Cyhoeddwyd yr eitem fel datganiad ysgrifenedig.

## 10 Cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.50

**NDM7446** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36: Yn cytuno i waredu’r adrannau a’r atodlenni i’r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

1) Adrannau 2 - 24;

2) Atodlen 2;

3) Adran 1;

4) Adrannau 25 – 38;

5) Atodlen 3;

6) Adrannau 40 – 50;

7) Atodlen 4;

8) Adran 51;

9) Adran 39;

10) Adran 53;

11) Atodlen 5;

12) Adrannau 54 – 56;

13) Atodlen 6;

14) Adran 57;

15) Atodlen 7;

16) Adrannau 58 – 63;

17) Atodlen 8;

18) Adrannau 64 – 66;

19) Adran 52;

20) Adrannau 67 – 87;

21) Atodlen 9;

22) Adrannau 88 – 114;

23) Atodlen 10;

24) Adrannau 115 – 135;

25) Atodlen 11;

26) Adran 136;

27) Atodlen 12;

28) Adran 137;

29) Atodlen 1;

30) Adrannau 138 – 160;

31) Atodlen 13;

32) Adrannau 161 – 163;

33) Atodlen 14;

34) Adrannau 164 – 174;

35) Teitl hir.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 11 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 – Tynnwyd yn ôl

Tynnwyd yr eitem yn ôl.

## 12 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020

Dechreuodd yr eitem am 17.51

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7445** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Hydref 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 17 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 13 Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Ty Gwydr 2020

Dechreuodd yr eitem am 18.24

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7444** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Gorffennaf 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 8 | 2 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 14 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) – Gohiriwyd tan 17 Tachwedd 2020

Gohiriwyd yr eitem tan 17 Tachwedd 2020.

## 15 Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020 - Tynnwyd yn ôl

Tynnwyd yr eitem yn ôl.

## 16 Dadl: Ail Adroddiad Blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru - Gohiriwyd tan 17 Tachwedd 2020

Gohiriwyd yr eitem tan 17 Tachwedd 2020.

## 17 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.14D, am 18.44, cafodd y trafodion eu hatal dros dro er mwyn caniatáu egwyl technegol cyn y cyfnod pleidleisio.

Dechreuodd yr eitem am 18.51

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 18.53

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 4 Tachwedd 2020**